

## CYNGOR SIR Y FFLINT

### RHESTR O GYDNABYDDIAETHAU ARIANNOL AELODAU

Gwneir y Cynllun hwn o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) sy'n gymwys i daliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol.

#### 1. Cyflog Sylfaenol

1.1 Telir Cyflog Sylfaenol i bob Aelod etholedig o'r Awdurdod.

1.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfradd y Cyflog Sylfaenol yn cael ei hadolygu'n flynyddol fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

1.3 Pan fydd cyfnod swydd Aelod yn dechrau neu'n dod i ben ar wahân i ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl i'r Cyflog Sylfaenol ar sail pro rata.

1.4 Nid oes mwy nag un Cyflog Sylfaenol yn daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

#### 2. Cyflogau Uwch a Chyflogau Dinesig

2.1 Telir Cyflog Uwch i Aelodau sy'n dal swyddi penodol fel y nodir yn **Atodlen 1**.

2.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd cyfraddau Cyflogau Uwch a Chyflogau Dinesig yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel y pennir gan Adroddiad Blynyddol neu Atodol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

2.3 Dim ond un Cyflog Uwch neu Gyflog Dinesig sy'n daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

2.4 Ni ellir talu Cyflog Uwch a Chyflog Dinesig i Aelod o'r Awdurdod.

2.5 Mae Cyflog Sylfaenol yn gynhwysol yn yr holl Gyflogau Uwch a Dinesig a delir.

2.6 Ni cheir talu Cyflog Uwch i fwy na nifer yr aelodau a bennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei Adroddiad Blynyddol ac ni chaiff fod yn fwy na hanner cant y cant o gyfanswm aelodaeth yr awdurdod, ac eithrio i gynnwys deiliad swydd Cyflog Uwch dros dro sy'n darparu gwasanaeth dros dro ar gyfer absenoldeb teuluol deiliad y swydd a benodwyd.

2.7 **Ni all** Aelod o'r Awdurdod sy'n derbyn Uwch Gyflog dderbyn cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol (NPA) neu Awdurdod Tân ac Achub (FRA) y maent wedi'u henwebu ar ei gyfer.

2.8 Pan fydd cyfnod yr Uwch Gyflog neu Gyflog Dinesig Aelod yn dechrau neu'n dod i ben ar wahân i ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd eu hawl i'r Cyflog ar sail pro-rata.

#### 3. Dewis Ildio Hawl i dderbyn Lwfans

3.1 Caiff Aelod, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i Swyddog Priodol yr awdurdod, ddewis peidio â derbyn unrhyw ran o'i hawl i unrhyw gyflog, lwfans neu ffi sy'n daladwy o dan y Cynllun hwn o'r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad.

#### **4. Atal Aelod**

4.1 Pan fydd Aelod o'r Awdurdod yn cael ei wahardd dros dro neu ei wahardd yn rhannol o'i gyfrifoldebau neu ei ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wneir o dan y Ddeddf, bydd y rhan o'r Cyflog Sylfaenol sy'n daladwy iddo mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw y maent wedi'u gwahardd yn cael ei hatal gan yr Awdurdod (Adran 155 (1) y Mesur).

4.2 Pan fo Aelod sy'n cael Uwch Gyflog yn cael ei wahardd neu ei wahardd yn rhannol rhag bod yn Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wneir o dan y Ddeddf, rhaid i'r Awdurdod beidio â gwneud taliadau Uwch Gyflog yr Aelod am gyfnod y gwaharddiad (Adran 155 (1) o'r Mesur). Os yw'r gwaharddiad rhannol yn ymwneud yn unig ag elfen cyfrifoldeb penodol y taliad, caiff yr Aelod gadw'r Cyflog Sylfaenol.

#### **5. Ad-dalu cyflogau, lwfansau neu ffioedd**

5.1 Pan dalwyd unrhyw gyflog, lwfans neu ffi i Aelod o'r Awdurdod neu Aelod Cyfetholedig mewn perthynas ag unrhyw gyfnod pan fo'r Aelod dan sylw:

- (a) yn cael ei wahardd dros dro neu ei wahardd yn rhannol o ddyletswyddau neu gyfrifoldebau'r Aelod hwnnw neu'r Aelod Cyfetholedig yn unol â Rhan 3 o Ddeddf 2000 neu reoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno;
- (b) yn peidio â bod yn Aelod o'r Awdurdod neu'n Aelod Cyfetholedig; neu
- (c) mewn unrhyw ffordd arall ddim â hawl i dderbyn cyflog, lwfans neu ffi mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw,

Bydd yr Awdurdod yn mynnu bod y cyfryw ran o'r lwfans sy'n berthnasol i unrhyw gyfnod o'r fath yn cael ei had-dalu.

#### **6. Taliadau**

6.1 Telir pob lwfans gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyflogaeth drwy Gredyd Banc mewn rhandaliadau o un rhan o ddeuddeg o hawliad blynyddol yr Aelod ar 28ain o'r Mis, neu'r dydd Gwener agosaf os yw'r 28ain ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul.

6.2 Os yw'r taliad wedi golygu bod Aelod yn cael mwy na'i hawl i gyflogau, lwfansau neu ffioedd, bydd yr Awdurdod yn mynnu bod y cyfryw ran sy'n ordaliad yn cael ei had-dalu.

6.3 Mae pob taliad yn amodol ar y didyniadau treth ac Yswiriant Gwladol priodol.

#### **7. Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol**

7.1 Telir cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol i Aelod neu Aelod Cyfetholedig, sydd â chyfrifoldeb gofalu am blant neu oedolion dibynol, neu ofyniad gofal personol, ar yr amod bod yr Aelod yn ysgwyddo costau wrth ddarparu gofal o'r fath tra'n ymgymryd â dyletswyddau 'cymeradwy' y cyngor.

7.2 Mae Cyfraniad tuag at Gostau Gofal a Chymorth Personol yn berthnasol mewn perthynas â dibynnydd dan 16 oed, neu blentyn dan 18 oed neu oedolyn sydd fel arfer yn byw gyda'r aelod fel rhan o'i deulu ac na ellir ei adael heb oruchwyliaeth, y gall yr Aelod neu'r Aelod Cyfetholedig ddangos bod angen gofal ar ei gyfer. Os oes gan Aelod neu Aelod Cyfetholedig fwy nag un dibynnydd, caiff yr Aelod hawlio mwy nag un lwfans, ar yr amod bod yr Aelod yn gallu dangos bod angen gwneud trefniadau ar wahân ar gyfer gofal.

7.3 Caiff Aelodau Cymwys hawlio cyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol ar gyfer costau gwirioneddol a chostau â derbynneb fel y nodir yn **Atodlen 1**. Dylid cyflwyno pob hawliad am gyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol yn ysgrifenedig i'r Gwasanaethau Democrataidd, gan nodi'r amseroedd, y dyddiadau a'r rhesymau dros yr hawliad. Mae angen derbynebau ar gyfer trefniadau gofal ffurfiol ac anffurfiol.

## 8. Absenoldeb Teuluol

8.1 Mae gan aelodau hawl o dan ddarpariaethau Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 i gyfnod o absenoldeb teuluol. Yn ystod y cyfnod hwn, os ydynt yn bodloni'r amodau rhagnodedig, mae ganddynt hawl i fod yn absennol o gyfarfodydd awdurdod.

8.2 Wrth gymryd absenoldeb teuluol, mae gan Aelodau hawl i gadw cyflog sylfaenol beth bynnag fo'u cofnod presenoldeb yn union cyn dechrau'r absenoldeb teuluol.

8.3 Os bydd deiliad uwch gyflog yn gymwys i gael absenoldeb teuluol, bydd yn gallu parhau i dderbyn ei gyflog uwch drwy gydol yr absenoldeb.

8.4 Os yw'r awdurdod yn cytuno bod angen penodi dirprwy am gyfnod absenoldeb teuluol deiliad cyflog uwch, bydd yr Aelod sy'n dirprwyo yn gymwys, os yw'r awdurdod yn penderfynu hynny, i dderbyn cyflog uwch.

8.5 Os yw'r taliad am ddirprwy yn golygu bod yr awdurdod yn talu am fwy na'r uchafswm o uwch gyflogau, caniateir ychwanegiad at yr uchafswm ar gyfer cyfnod yr amnewid.

## 9. Taliadau aelodau cyfetholedig

9.1 Telir ffi ddyddiol (gyda darpariaeth ar gyfer taliadau hanner diwrnod) i Aelodau Cyfetholedig, ar yr amod eu bod yn Aelodau Cyfetholedig statudol sydd â hawliau pleidleisio.

9.2 Bydd taliadau aelodau cyfetholedig yn cael eu capio ar uchafswm o 15 diwrnod llawn y flwyddyn ar gyfer pob pwyllgor y gellir cyfethol unigolyn iddo.

9.3 Bydd taliadau'n ystyried amser teithio i'r cyfarfod ac oddi yno, amser rhesymol ar gyfer paratoi cyn y cyfarfod a hyd y cyfarfod (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).

9.4 Dynodir Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn “swyddog priodol” a bydd yn pennu amser paratoi, amser teithio a hyd y cyfarfod. Telir y ffi ar sail y penderfyniad hwn.

9.5 Gall y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd benderfynu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer diwrnod llawn a thelir y ffi ar sail y penderfyniad hwn hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn dod i ben cyn bod pedair awr wedi mynd heibio.

9.6 Diffinnir cyfarfod hanner diwrnod fel hyd at 4 awr.

9.7 Diffinnir cyfarfod diwrnod llawn fel cyfarfod dros 4 awr.

9.8 Mae'r ffi ddyddiol a hanner diwrnod ar gyfer Cadeiryddion y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Archwilio, fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, wedi'i nodi yn **Atodlen 1**.

9.9 Mae'r ffi ddyddiol a hanner diwrnod ar gyfer Aelodau cyfetholedig statudol eraill sydd â hawliau pleidleisio, fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, wedi'i nodi yn **Atodlen 1**.

## **10. Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth**

10.1 Egwyddorion Cyffredinol

10.2 Mae gan Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig hawl i hawlio treuliau teithio wrth deithio ar fusnes yr Awdurdod ar gyfer 'dyletswyddau cymeradwy' fel y nodir yn **Atodlen 2**. Pan fydd Aelodau'n teithio ar fusnes yr Awdurdod, disgwylir iddynt deithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost effeithiol. Wrth asesu effeithiolrwydd cost, rhoddir ystyriaeth i amser teithio. Mae'n bosibl y bydd hawliad Aelod nad yw'n teithio drwy'r dull mwyaf cost effeithiol yn cael ei leihau gan swm priodol.

10.3 Lle bo'n bosibl, dylai Aelodau rannu cludiant.

10.4 Dylai'r pellter a hawlir ar gyfer milltiroedd fod y daith resymol fyrraf ar y ffordd o'r pwynt ymadael i'r pwynt lle cyflawnir y ddyletswydd, ac yn yr un modd o'r pwynt dyletswydd i'r man dychwelyd.

10.5 Mae cyfraddau Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth Aelodau wedi'u nodi yn **Atodlen 3** ac maent yn destun adolygiad blynyddol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.

10.6 Pan gaiff Aelod ei wahardd dros dro neu ei wahardd yn rhannol o'i gyfrifoldebau neu ei ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Cynnal Aelodau), neu reoliadau a wneir o dan y Ddeddf, rhaid i'r Awdurdod beidio ag anfon unrhyw lwfansau teithio a chynhaliaeth sy'n daladwy iddo mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw y maent wedi'u gwahardd neu wedi'u gwahardd yn rhannol.

## **11. Teithio mewn Cerbyd Preifat**

11.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu mai'r cyfraddau teithio uchaf a ddylai fod yn daladwy yw'r cyfraddau a nodir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi

ar gyfer defnyddio ceir preifat, beiciau modur a beiciau pedal ynghyd ag unrhyw atodiad teithiwr.

11.2 Mae'r cyfraddau milltiroedd ar gyfer cerbydau preifat fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol wedi'u nodi yn **Atodlen 3**.

11.3 Pan fydd Aelod yn defnyddio'i gerbyd preifat at ddibenion dyletswyddau a gymeradwywyd, rhaid yswirio'r cerbyd at ddibenion busnes. Rhaid darparu prawf o yswiriant priodol i'r Awdurdod ar gais.

## **12. Teithio ar Gludiant Cyhoeddus**

### **12.1 Teithio ar Drên neu Fws**

Oni bai eu bod wedi'u hawdurdodi'n wahanol, bydd tocynnau trên yn rhai ail ddsbarth.

Bydd y Gwasanaethau Dinesig ac Aelodau yn prynu'r tocynnau trên a bws angenrheidiol i Aelodau cyn teithiau. Os bydd angen i Aelod brynu tocyn yn uniongyrchol, dan amgylchiadau annhebygol, bydd y taliad yn cael ei ad-dalu ar ôl dangos y tocyn sydd wedi'i ddefnyddio a/neu dderbynneb.

### 12.2 Prisiau Tacsî

Ni fydd prisiau tacsî'n cael eu had-dalu oni bai fod eu defnydd wedi'i awdurdodi ar gyfer achosion brys, lle nad oes trafndiaeth gyhoeddus ar gael yn rhesymol, neu lle bo gan Aelod angen personol penodol. Dim ond ar ôl derbyn derbynneb y rhoddir ad-daliad.

### 12.3 Teithio Dramor

Dim ond pan awdurdodir hynny gan y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog (Llywodraethu) neu'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol y caniateir i chi deithio dramor ar fusnes yr Awdurdod. Bydd y Gwasanaethau Dinesig ac Aelodau'n trefnu teithio a llety.

### **12.4 Costau Teithio Eraill**

Mae gan aelodau hawl i gael ad-daliad am ffioedd tollau, ffioedd parcio, garejys dros nos a chostau angenrheidiol eraill sy'n gysylltiedig â theithio. Dim ond ar ôl derbyn derbynneb y rhoddir ad-daliad.

## **13. Llety dros nos**

13.1 Dim ond os yw busnes yr Awdurdod yn ymestyn i ddau ddiwrnod neu fwy y caniateir aros dros nos, neu os yw'r lleoliad mor bell fel y byddai teithio'n gynnar yn y bore neu'n hwyr gyda'r nos yn afresymol. Rhaid i'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddog (Llywodraethu) neu'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol awdurdodi pob arhosiad dros nos ymlaen llaw.

13.2 Bydd llety dros nos yn cael ei archebu gan y Gwasanaethau Dinesig ac Aelodau. Lle bynnag y bo modd, bydd y llety dros nos yn cael ei dalu ymlaen llaw neu ei anfonebu.

13.3 Dim ond os bydd argyfwng y caniateir i Aelod archebu llety dros nos yn uniongyrchol. Bydd ad-daliad yn cael ei wneud dim ond ar ôl derbyn

derbynneb a bydd ar lefel a bennir yn rhesymol ac nid yn uwch na'r cyfraddau a nodir yn **Atodlen 3**.

## **14 Lwfans Cynhaliaeth**

14.1 Mae'r gyfradd gynhaliaeth dydd i dalu costau prydu a lluniaeth mewn cysylltiad â dyletswyddau cymeradwy (gan gynnwys brechwast pan nad yw'n cael ei ddarparu fel rhan o lety dros nos) wedi'i nodi yn **Atodlen 3**. Mae'r gyfradd ddyddiol uchaf yn cynnwys cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd bwyd sy'n berthnasol, ar yr amod bod derbynneb(au) yn cefnogi hawliad o'r fath.

14.2 Ni wneir darpariaeth ar gyfer hawliadau cynhaliaeth o fewn yr Awdurdod.

## **15. Hawliadau a Thaliadau**

15.1 Rhaid i hawliad am lwfansau teithio a chynhaliaeth gael ei wneud yn ysgrifenedig o fewn 4 mis i ddiwedd y mis calendr pan fo hawl i lwfansau yn codi a rhaid cynnwys y derbynebau perthnasol gyda hwy.

15.2 Telir lwfansau gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyflogaeth drwy gredyd banc uniongyrchol.

## **16. Pensiynau**

16.1 Bydd yr Awdurdod yn galluogi ei Aelodau sy'n gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## **17 Cefnogi gwaith Aelodau'r Awdurdod**

17.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn disgwyl i Aelodau gael cymorth digonol i gyflawni eu dyletswyddau ac y dylai'r cymorth a ddarperir ystyried anghenion penodol Aelodau unigol. Mae'n ofynnol i Bwyllgor Gwasanaethau Democraataidd yr Awdurdod adolygu lefel y gefnogaeth a ddarperir i Aelodau a dylai gyflwyno cynigion am gefnogaeth resymol i'r cyngor llawn.

17.2 Dylai pob Aelod etholedig ac Aelod Cyfetholedig gael cyfleusterau digonol o ran ffôn, e-bost a'r rhyngwyd i roi mynediad electronig at wybodaeth briodol.

17.3 Dylai cymorth o'r fath fod yn ddi-gost i unrhyw Aelod. Rhaid peidio â gwneud didyniadau o gyflogau Aelodau fel cyfraniad tuag at gost y gefnogaeth y mae'r Awdurdod wedi penderfynu ei bod yn angenrheidiol er mwyn effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yr Aelodau.

## **18 Cydymffurfio**

18.1 Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â gofynion Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â monitro a chyhoeddi taliadau a wneir i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig fel y nodir yn **Atodlen 4**.

**Atgoffir Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig bod hawliadau treuliau yn amodol ar archwiliad mewnol ac allanol.**

**ATODLEN 1**

**RHESTR O GYDNABYDDIAETHAU SWM BLYNYDDOL Y CYFLOG  
ARIANNOL 2022-23 AELODAU SYDD SYLFAENOL A DDERBYNIWYD  
Â HAWL I GYFLOG SYLFAENOL**

1.	Mike Allport	£16,800
2.	Bernie Attridge	£16,800
3.	Glyn Banks	£16,800
4.	Pam Banks	£16,800
5.	Marion Bateman	£16,800
6.	Sean Bibby	£16,800
7.	Chris Bithell	£16,800
8.	Gillian Brockley	£16,800
9.	Helen Brown	£16,800
10.	Mel Buckley	£16,800
11.	Teresa Carberry	£16,800
12.	Tina Claydon	£16,800
13.	David Coggins Cogan	£16,800
14.	Geoff Collett	£16,800
15.	Steve Copple	£16,800
16.	Bill Crease	£16,800
17.	Paul Cunningham	£16,800
18.	Jean Davies	£16,800
19.	Rob Davies	£16,800
20.	Ron Davies	£16,800
21.	Adele Davies-Cooke	£16,800
22.	Chris Dolphin	£16,800
23.	Rosetta Dolphin	£16,800
24.	Mared Eastwood	£16,800
25.	Carol Ellis	£16,800
26.	David Evans	£16,800
27.	Chrissey Gee	£16,800
28.	David Healey	£16,800
29.	Gladys Healey	£16,800
30.	Ian Hodge	£16,800
31.	Andy Hughes	£16,800
32.	Dave Hughes	£16,800
33.	Ray Hughes	£16,800
34.	Dennis Hutchinson	£16,800
35.	Alasdair Ibbotson	£16,800
36.	Paul Johnson	£16,800
37.	Christine Jones	£16,800
38.	Richard Jones	£16,800
39.	Simon Jones	£16,800